



Arlwyo heb Arian

Taliadau Ar lein

Canllaw gam wrth gam ar gyfer talu ar lein

Cynnwys

<i>Cwestiynau Cyffredin</i>	2
<i>Creu cyfrif E-Store</i>	6
<i>Talu am y Tro Cyntaf</i>	7
<i>Checking Out</i>	8
<i>Arbed Manylion Eich Cerdyn (Opsiyonl)</i>	8
<i>Gweld Balansau a Thrafodion</i>	9

**OS OES GENNYCH UNRHYW GWESTIYNAU NEU YMHOLIADAU NAD YDYNT WEDI EU NODI YN Y
CANLLAW HWN CYSYLLTWCH Â'R TÎM ARLWYO AR 01633 647726 / 647715 / 647719**

E-BOST: cashless.catering@torfaen.gov.uk

**YSGRIFENNWCH AT: Arlwyo Heb Arian, Canolfan Addysg Gymunedol Croesyceiliog, Y Briffordd,
Cwmbrân NP44 2HF**

Cwestiynau Cyffredin

C BETH YW ARLWYO HEB ARIAN?

Mae Arlwyo heb arian yn system talu ar-lein sy'n rhoi cyfrif unigryw i bob disgybl yn yr ysgol, i dalu am wasanaethau arlwyo. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i ddisgyblion gario arian parod i'r ysgol ac mae ffordd gyflym a hawdd i ychwanegu at y cyfrif, gyda'r fantais ychwanegol i rieni, am fod modd iddynt wirio balansau a monitro gwariant.

C MAE'N WELL GEN I DALU AG ARIAN PAROD – FEDRAI BARHAU I WNEUD HYNNY?

Mae modd talu ag arian parod yn unrhyw rhai o'r swyddfeydd arian parod yn Nhorfaen (manylion isod), ond ni fyddwch yn gallu talu gydag arian parod yn yr ysgol.

C A GALL UNRHYW UN ARALL DDEFNYDDIO CYFRIF FY MHLENTYN?

Mae cyfrif eich plentyn yn unigryw a bydd llun yn cael ei ddyrannu i bob disgybl fel modd arall o ddiogelwch wrth y til. Mae'r holl wybodaeth yn cael ei diogelu ac yn cael ei chadw ar weinyddwr diogel. Mewn ysgolion uwchradd mae sganiwr biometrig yn cael ei ddefnyddio i gadarnhau pwy yw'r defnyddiwr – ceir rhagor o fanylion isod.

C MAE FY MHLENTYN YN MYND Â BRECHDANAU I'R YSGOL – A FYDD ANGEN I MI GADW'R WYBODAETH HON?

Mae cyfrif eich plentyn ar gael pa bryd bynnag y bydd ei angen arnoch, felly dylech gadw'r wybodaeth rhag ofn y bydd eich plentyn angen cinio ysgol, ee, os byddant wedi anghofio eu brechdanau.

C SUT YDW I'N YCHWANEGU CREDYD I'R CYFRIF?

Gellir gwneud taliadau i'r cyfrif drwy ddefnyddio unrhyw rai o'r dulliau canlynol. Nodwch fod y system yn cael ei diweddarau o bryd i'w gilydd drwy gydol y dydd - os ychwanegir at y cyfrif erbyn 9.00am, bydd hyn fel arfer yn cael ei gredydu i'r cyfrif erbyn cinio, ond efallai na fydd taliadau diweddarach yn ymddangos tan y prynhawn.

- *Taliadau ar lein*

Gallwch wneud taliad unrhyw adeg drwy ddefnyddio system e-Store y Cyngor. Ewch i **www.torfaen.gov.uk** a chliciwch ar "Gwneud taliad", yna dewiswch ysgol eich plentyn o'r rhestr o "Holl Siopau". Gallwch hefyd dalu am ymweliadau ysgol a gweithgareddau.

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngwyd gartref, gallwch gael mynediad i daliadau ar lein unrhyw adeg yn unrhyw rhai o lyfrgelloedd Torfaen.

Mae rhagor o wybodaeth am sut i wneud taliad a chreu cyfrif i'w gweld ar ddiwedd y canllaw hwn.

- *Taliadau Awtomataidd Dros y Ffôn*

A fydddech cystal â deialu 0300 4560516 a dilyn y cyfarwyddiadau. Bydd angen rhif eich cyfrif arnoch, rhif cyfeirnod yr ysgol a'r cod eitem - mae'r rhifau hyn ar y llythyr a gawsoch. Dylech gael eich cerdyn credyd neu ddebyd wrth law.

Gallwch hefyd wneud taliad â cherdyn dros y ffôn drwy gysylltu â Galw Torfaen ar 01495 762200 - eto, bydd angen i chi gael rhif eich cyfrif, rhif cyfeirnod yr ysgol a chod eitem.

- *Yn bersonol; mewn Canolfan Gofal Cwsmeriaid*

Bydd swyddfeydd arian parod Torfaen yn derbyn taliadau arian parod, siec neu gerdyn debyd/credyd. Bydd angen cod cyfeirnod 10 digid eich plentyn arnoch i dalu. Mae ein swyddfeydd arian parod wedi eu lleoli fel a ganlyn:

Canolfan Gwsmeriaid Cwmbrân:

Llyfrgell Cwmbrân, Sgwâr Gwent, Cwmbrân, Torfaen

9:00am tan 4:30pm dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener

Canolfan Gwsmeriaid Pont-y-pŵl:

Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 6YB

9:00am tan 4:30pm dydd Llun i ddydd Gwener (Arian a Swyddfa)

Canolfan Gwsmeriaid Blaenafon:

Canolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon, Heol yr Eglwys, Blaenafon, Torfaen, NP4 9AS

10:00am tan 3:00pm dydd Mawrth i ddydd Gwener

C SUT FEDRAI WIRIO CREDYD MEWN CYFRIF?

Pan fyddwch yn gwneud taliad ar-lein, byddwch yn cael y dewis i "Gadw Eitem" - bydd hyn yn eich caniatáu i weld balansau a thrafodion yn y dyfodol. Nodwch fod rhaid i chi ganiatáu un diwrnod gwaith rhwng actifadu'r "Cadw'r Eitem" i allu gweld y cyfrif i sicrhau bod y broses wirio yn cael ei chwblhau. Fel arall, cysylltwch â'r Tîm Arlwygo - byddwn yn gwirio pwy ydych chi cyn rhoi unrhyw wybodaeth.

C BETH FYDD YN DIGWYDD OS NA FYDD DIGON O GREDYD YNG NGHYFRIF FY MHLENTYN I DALU AM BRYD O FWYD?

Bydd 'benthyg' yn cael ei brosesu at y cyfrif yn unol â gweithdrefn ddyled adran arlwygo'r ysgol. Byddwch yn derbyn gohebiaeth gan eich ysgol ynglŷn â'r ddyled, a disgwylir i chi wneud taliad i'r cyfrif (gan ddefnyddio'r dull talu ar-lein) i dalu am y pryd bwyd, oni bai y nodir yn wahanol gan yr ysgol.

C RWYF WEDI GWNEUD TALIAD I'R CYFRIF ANGHYWIR – SUT YDW I'N CYWIRO HYN?

Os ydych wedi talu i'r cyfrif anghywir, ee, talu i gyfrif brawd neu chwaer neu roi credyd yn y gronfa anghywir, ffoniwch y Tîm Arlwygo a byddwn yn gwneud y cywiriad angenrheidiol.

C RWYF WEDI YCHWANEGU AT Y CYFRIF - PAM FO'R BALANS YN LLAI NAG OEDDWN YN EI DDISGWYL?

Os oedd gennych ddyled ar y cyfrif am fod eich plentyn wedi derbyn pryd o fwyd ar "fenthyg" i'r cyfrif, bydd y swm yn cael ei dynnu o'r ychwanegiad nesaf.

C FAINT GALL FY MHLENTYN EI WARIO BOB DYDD?

I ysgolion cynradd mae terfyn gwariant dyddiol sy'n gyfwerth ag un pryd o fwyd ac un eitem o'r siop fwyd. I ysgolion uwchradd y terfyn gwariant arferol yw £5 y dydd oni bai bod yr ysgol yn amrywio hyn. Gallwch newid y terfyn ar gyfer eich plentyn trwy e-bostio cashless.catering@torfaen.gov.uk neu lenwi Ffurflen Newid Terfyn Gwariant, sydd ar gael gan yr ysgol.

C SUT MAE'R HAWL I DDERBYN PRYDAU YSGOL AM DDIM YN GWEITHIO?

Bob bore, bydd lwfans pryd ysgol am ddim yn cael ei gredydu i gyfrifon cymwys sy'n cyfateb i gost pryd ysgol ar gyfer y grŵp oedran perthnasol. Mae'r system yn ddienw o ran defnyddio'r system hon a gellir gwario'r lwfans yn yr un ffordd ag unrhyw falans cyfrif. *Mae'r lwfans hwn ar gael i'w wario yn yr un dydd yn unig ac ni fydd yn cario drosodd i'r diwrnod nesaf.*

C MAE FY MHLENTYN YN DERBYN PRYDAU YSGOL AM DDIM FELLY PAM FOD ARIAN YN DDYLEDUS AR Y CYFRIF?

Rhaid talu unrhyw ddyled cinio ysgol oedd yn ddyledus cyn y cymeradwywyd eich cais am brydau ysgol am ddim. Mae'r lwfans pryd ysgol am ddim yn gyfwerth â chost cinio ysgol, felly os yw eich plentyn hefyd yn defnyddio eu cyfrif ar gyfer y siop fwyd neu, yn prynu ar gyfer amser brecwast neu amser egwyl (yn achos ysgol uwchradd) bydd angen i chi wneud taliadau i'r cyfrif i dalu am hyn. Ni fydd yn effeithio ar y lwfans cinio ysgol am ddim.

C SUT YDW I'N GWNEUD TALIADAU AR GYFER Y SIOP FWYD / FFRWYTHAU?

Pan fyddwch yn gwneud taliad ar-lein, byddwch yn gweld opsiwn ar wahân i roi credyd ar gyfrif siop fwyd/ffrwythau. Bydd terfyn gwariant dyddiol o 30c ar y cyfrif hwn ond os hoffech newid hyn, dylech e-bostio cashless.catering@torfaen.gov.uk neu lenwi Ffurflen Newid Terfyn Gwario, sydd ar gael gan yr ysgol.

Os yw eich plentyn yn derbyn prydau ysgol am ddim a hoffech iddynt ddefnyddio'r siop fwyd/ffrwythau, bydd angen i chi dalu am y gwasanaeth hwn ar wahân gan ddefnyddio un o'r dulliau talu a nodir uchod.

C MAE GAN FY MHLENTYN OFYNION DIETEGOL ARBENNIG – SUT FYDD HYN YN CAEL EI FONITRO?

Os ydych chi wedi rhoi gwybod i'r ysgol am unrhyw alergedd neu ofynion dietegol arbennig, bydd y rhain yn cael ei rhannu gyda'r staff arlwy. Os nad ydych chi wedi cofrestru anghenion eich plentyn, cysylltwch ag ysgol eich plentyn.

C RWYF WEDI GWIRIO FY NGHYFRIF OND NID OES UNRHYW DRAFODION I'W GWELD

Bydd y cyfleuster datganiad yn dangos trafodion yn unig (yr hyn a dalwyd a'r hyn a brynwyd) o'r dyddiad y gwiriwyd eich cyfrif. Bydd y datganiad yn dangos trafodion o'r diwrnod gweithio blaenorol, hyd at uchafswm o 30 diwrnod.

C MAE GAN FY MHLENTYN HAWL I BRYDAU YSGOL AM DDIM, FEDRAI BARHAU I WELD Y TRAFODION HYN?

Medrwyd, byddwch dal i fod yn medru gweld y balans a'r trafodion ar gyfrif eich plentyn, hyd yn oed os oes ganddynt hawl i brydau ysgol am ddim.

C GALL ARLWYO HEB ARIAN GYNORTHWYO GYDAG UNRHYW BETH SY'N YMWNEUD Â THALU AR-LEIN AM DEITHIAU YSGOL?

Os yw eich ysgol yn darparu cyfleuster ar gyfer talu ar-lein am deithiau ysgol a gweithgareddau eraill, mae hyn yn gwbl annibynnol i'ch cyfrif Arlwyio Heb Arian a dylech gysylltu â'r ysgol.

Gwybodaeth i Ysgolion Uwchradd Yn Unig

C BETH MAE BIOMETRIG YN EI OLYGU?

Mae cyfleuster cydnabod biometrig ar gael ar gyfer cyfrifon ysgolion uwchradd. Mae sgan olion bysedd electronig yn cael ei gymryd a'i storio'n rhifiadol fel set o rhwng 20 a 50 o bwyntiau cyfeirio, sy'n unigryw i ôl bysedd yr unigolyn. Mae pob pwynt cyfeirio yn cynnwys tri rhif sy'n gyfesurynnau X ac Y yn ac ongl o gromlin. Unwaith y bydd y sgan wedi'i gymryd mae'n cael ei drawsnewid yn awtomatig i ffurf rifol. Ni chedwir cofrestr o olion bysedd ac mae'n amhosibl ailgysodi olion bysedd o'r cyfeiriad rhifol. Nid chedwir delwedd o'r bys a sganiwyd.

Pan fydd defnyddiwr yn dymuno prynu o'r ffreutur, mae'n rhoi ei fawd / bys ar y sganiwr wrth y til. Bydd y person sy'n derbyn yr arian yn gallu gweld llun, enw, grŵp tiwtor a balans arian parod presennol y myfyriwr. Yna, bydd y person sy'n cymryd yr arian yn rhoi'r eitemau bwyd a ddewiswyd i mewn i'r system o derfynfa'r sgrin gyffwrdd a bydd gwerthoedd yr eitemau a'r balans yn ei gyfanswm i'w weld.

C A OES MODD DEFNYDDIO'R WYBODAETH AT DDIBENION ERAILL?

Ni ellir defnyddio'r wybodaeth fiometrig at unrhyw ddibenion heblaw am y diben y cafodd ei chasglu'n wreiddiol. Bydd yr ysgol yn defnyddio'r wybodaeth ar gyfer y system arlwyio heb arian a hynny'n unig.


C NID WYF EISIAU SGANIO OLION BYSEDD FY MHLENTYN - OES YNA DDEWIS ARALL?

Cyn y bydd olion bysedd eich plentyn yn cael eu sganio, mae'n rhaid i ni gael eich caniatâd a byddwn yn gofyn i chi lenwi ffurflen yn cadarnhau hynny. Mae'r ffurflen ar gael gan yr ysgol neu gellir ei lawr lwytho o www.torfaen.gov.uk - chwilio am Brydau Ysgol.


Os nad ydych am i'ch plentyn ddefnyddio'r cyfleuster biometrig, bydd rhif PIN yn cael ei drefnu ar ei gyfer/chyfer.

Creu cyfrif E-Store

1. Llwythwch eich Porwr Ryngrwyd (Internet Explorer, Safari, Mozilla Firefox, Google Chrome ac ati.)
2. Ewch i www.torfaen.gov.uk a dewis yr iaith sydd orau gennych.
3. Dewiswch 'Gwneud taliad' dan 'Tasgau Poblogaidd'.



4. Bydd hyn yn agor tudalen gwe newydd, cliciwch 'Mewngofnodi' yn y cornel uchaf ar y dde.



5. Cliciwch 'Cofrestru Nawr' a llenwi eich manylion cofrestru. Bydd e-bost i gadarnhau hyn yn cael ei anfon i'r cyfrif e-bost y defnyddioch wrth gofrestru, dewch o hyd i'r e-bost hwn a dilynwch y ddolen i wirio'ch cyfrif gyda Thorfaen, os na fyddwch yn derbyn yr e-bost o fewn 10 munud edrychwch yn eich ffolder sbwriel.

MAE'R CYSWLLT I DDILYSU'R CYFRIF YN DDILYS AM UN AWR YN UNIG AR ÔL CAEL EI ANFON

Talu Am y Tro Cyntaf

1. Mewn gofnodwch i'ch cyfrif gyda Thorfaen.
2. Ar y bar uchaf dewiswch 'Cynnyrch a Gwasanaethau'
3. Dewiswch ysgol eich plentyn dan y gwymplen 'Holl Siopau'.

Products & Services

To make a schools payment, select your school from the list o

All Shops ▾ All Categories ▾


All Shops

- Council Services
- Abersychan School
- Blaenavon Heritage VC Primary
- Croesyceiliog Comprehensive
- Croesyceiliog Primary
- Crownbridge School
- Cwmbran High School
- Garnteg Primary
- Maendy Primary
- Padre Pio Primary School
- Penygarn Primary
- West Monmouth School
- Ysgol Gyfun Gwynllyw
- Ysgol Gymraeg Cwmbran

Account number in the re
ates a mandatory field

0

4. Pan fyddwch wedi dewis yr ysgol gywir dewch o hyd i ba eitem yr hoffech ychwanegu ato. (Prydau Bwyd i Ddisgyblion, Arian Siop Ffrwythau)

 **Pupil School Meals**

Please enter your 10 digit reference number (starting with 4076) to Basket
An asterisk (*) denotes a mandatory field

Pupil Reference *



Pupil Name *

Amount *


Save Item

5. Nodwch rif cyfeirnod disgybl eich plentyn. ■

6. Nodwch ei enw/henw. ■

7. Nodwch y swm yr ydych am ei dalu. *(Gall fod yn unrhyw swm)* 
8. Cliciwch y blwch sy'n dweud 'Cadw Eitem' a fydd yn eich caniatáu i weld balansau a thrafodion pryduau ysgol a siop ffrwythau yn y dyfodol ar gyfer eich plentyn, un diwrnod ar ôl ei gadarnhau. 
9. **Gwenwch yn siŵr bod y wybodaeth yn gywir!**
10. Cliciwch 'Ychwanegu i'r Fasged'.

Man Talu

1. Dewiswch eich basged yn y gornel uchaf ar y dde.  Qty: 1 Amount: £23.00
2. Dewiswch 'Talu nawr'.
3. Dewiswch y dull talu sy'n well gennych
 - PayPal
 - Cerdyn Credyd
 - Cerdyn Debyd
4. Parhau â'r taliad.
5. Pan fydd y taliad wedi ei gwblhau fe gewch dderbynneb ar y sgrin.

Storio Manylion y Cerdyn (Opsionol)

1. Dewiswch 'Fy Nghyfrif' ar y bar uchaf.
2. Dewiswch y tab 'Cardiau Sydd Wedi Cofrestru'

Account Details

Account Details	Contact Details	Registered Cards
-----------------	-----------------	------------------

3. Cliciwch 'Ychwanegu cerdyn newydd'

4. Llenwch fanylion eich cerdyn a phwyswch 'Nesaf'. Bydd gwneud hyn yn cadw manylion eich cerdyn er mwyn eich galluogi i dalu'n gyflymach yn y dyfodol.

Gweld Balansau a Thrafodion

CYFLEUSTER AR GAEL UN DIWRNOD GWAITH AR ÔL EI GADARNHAU AC OS BYDD GWEITHGARWCH WEDI BOD AR GYFRIF EICH PLENTYN, OS BYDDWCH YN CEISIO EI WELD YN GYNT FE FYDD YN YMDDANGOS FEL GWALL PIN ANGHYWIR.

1. Mewn gofnodwch i'ch Cyfrif Torfaen a dewis 'Hafan' ar y bar uchaf.
2. Dewch o hyd i'r eitem y gwnaethoch ei arbed ynghynt.



3. Cliciwch 'Cadarnhau Cyfrif'.
4. Nodwch rhif PIN eich plentyn a chlicio 'Nesaf'
5. Cliciwch 'Hafan' ar y bar uchaf eto.
6. Dylai ddweud ar yr eitem fod yr 'Eitem wedi'i gadarnhau'.
7. Bydd Rhif Cyfeirnod y Disgybl yn troi i [gyswllt gwyrdd](#) unwaith bydd gweithgarwch ar y cyfrif (*Os gwnaed tâl neu os yw eich plentyn wedi defnyddio'r cyfrif yn yr ysgol*), mae hyn yn golygu y bydd yn dechrau cofnodi hanes y balansau a'r trafodion o'r tro nesaf y bydd eich plentyn yn gwneud trafodyn. *Cliciwch y cyswllt i weld hanes y balans a'r trafodion.*